RHYBUDD STATUDOL I NEWID YSTOD OEDRAN YSGOL UWCHRADD TREFFYNNON A LLEIHAU'R CAPASITI I 600 O LEOEDD

CYNGOR SIR Y FFLINT

RHODDIR RHYBUDD DRWY HYN, yn unol ag Adrannau 28(1)(b) Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 a Rheoliadau Addysg (Cynigion Trefniadaeth Ysgolion) (Cymru) 1999 (OS1999/1671) fel y'u diwygiwyd, bod Cyngor Sir y Fflint, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, ar ôl ymgynghori â'r sawl a oedd yn briodol ym marn y Cyngor, yn cynnig:-

- Lleihau ystod oedran Ysgol Uwchradd Treffynnon o 11-18 i 11-16

Bwriedir gweithredu'r cynigion ar 1 Medi 2016.

Mae'r cynnig yn golygu sefydlu Ysgol Uwchradd newydd o fewn safle yr Ysgol Uwchradd presennol am 600 o lefydd. Bydd y cynnig bod oll disgyblion sydd wedi eu cofrestru yn Ysgol Uwchradd Treffynnon yn yr oedran priodol yn trosglwyddo i'r ysgol newydd.

Ymdrinnir â'r trefniadau derbyn yn unol â Pholisi Derbyn yr ALl. Ni wneir unrhyw ddarpariaeth ar gyfer dethol disgyblion yn ôl eu gallu na bandio disgyblion.

Bydd darpariaeth arfaethedig ôl-16 ar gael yn y ganolfan ôl-16 newydd Herol Golftyn, Cei Connah, neu mewn darpariaeth addas arall a ddewiswyd gan y myfyrwyr yn unol â'u blaenoriaeth, cyhyd â bod lleoedd ar gael.

Ymdrinnir â threfniadau cludo disgyblion trwy gyfeirio at Bolisi'r ALl ar gyfer Cludiant rhwng yr Ysgol a'r Cartref.

Nifer y disgyblion a dderbynnir i'r Ysgol Uwchradd yn 11 oed yn ystod y flwyddyn ysgol gyntaf pan weithredir y cynigion fydd 120. Cyngor Sir y Fflint, bydd yr awdurdod derbyn.

Gall unrhyw berson wrthwynebu'r cynigion hyn cyn pen mis ar ôl dyddiad cyhoeddi'r cynigion, hynny yw erbyn 26 Gorffennaf 2013. Dylid anfon unrhyw wrthwynebiadau at y Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes, Cyngor Sir y Fflint, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint, CH7 6ND.

Bydd yr Awdurdod yn anfon copïau o unrhyw wrthwynebiadau a gyflwynir yn ystod y cyfnod gwrthwynebu (ac na chânt eu tynnu'n ôl yn ysgrifenedig), ynghyd â'i sylwadau arnynt, i Lywodraeth Cymru cyn pen mis ar ôl diwedd y cyfnod gwrthwynebu.

Bydd angen i'r cynigion (oni chânt eu tynnu'n ôl) gael cymeradwyaeth Gweinidogion Cymru :-

(a) Os, cyn pen deufis ar ôl i gopi ohonynt gael ei anfon at Weinidogion Cymru, byddant yn hysbysu bod angen cymeradwyaeth o'r fath arnynt; neu

(b) Os oes gwrthwynebiadau wedi eu cyflwyno yn ystod y cyfnod gwrthwynebu ac nad ydynt wedi eu tynnu'n ôl yn ystod y cyfnod hwnnw.

Os nad oes angen cymeradwyaeth o'r fath ar y cynigion, bydd Cyngor Sir y Fflint yn penderfynu a ddylid eu gweithredu.

Ian Budd
Y Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes

28 Mehefin 2013
NODYN ESBONIADOL;

Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r rhybudd statudol, ond bwriedir iddo esbonio pwrpas cyffredinol y rhybudd.

Mae Cyngor Sir y Fflint sy'n gweithredu fel yr Awdurdod Lleol yn bwriadu adeiladu Ysgol Uwchradd newydd sy'n llai o faint ar gyfer cymuned Treffynnon ar yr un safle â safle'r Ysgol Uwchradd bresennol. Bydd yr Ysgol Uwchradd newydd yn barod erbyn dechrau'r flwyddyn academaidd newydd yn 2016 i'w defnyddio gan y disgyblion a fydd yn trosglwyddo i'r adeilad newydd.

Yn rhan o'r cynnig, bydd y ddarpariaeth chweched dosbarth yn cael ei throsglwyddo i'r ganolfan ôl-16 arfaethedig newydd yng Nghei Connah hefyd ym mis Medi 2016.

Bydd y trefniadau cludo a derbyn yn unol â pholisïau cyfredol Cyngor Sir y Fflint.

Gellir cael rhagor o wybodaeth am y cynigion gan y Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes, Cyngor Sir y Fflint, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint CH7 6ND (Ffôn: 01352 704011).